# 4c. Y Diwedd: Y dioddefwr yn ffonio ChildLine

Sut allwn i fod mor dwp? Dim ond chwilio am ffrind, neu efallai gariad pe bawn i'n lwcus, oeddwn i. Pam na wnes i sylwi ei fod yn creu perthynas amhriodol ac yn gosod rhwyd y gwnes i gerdded ar fy mhen iddi? Dim ond i ni gael edrych arnyn nhw oedd y lluniau y gwnes eu hanfon ato. Doeddwn i ddim wedi bwriadu o gwbl i'r lluniau gael eu hanfon at bobl eraill. Pan sylweddolais i fod pethau wedi mynd o chwith roedd hi'n rhy hwyr. Roedd ein perthynas, a oedd yn ymddangos fel un gariadus a chyfeillgar, mewn gwirionedd yn un lle roedd e'n gwneud i mi wneud pethau yn rhywiol nad oeddwn i am eu gwneud. Rwy'n teimlo'n ofnus iawn ac mae gen i gymaint o gywilydd. Ni alla'i ddweud wrth fy Mam neu fe aiff yn wallgof. Fy mai i yw hyn. Dim ond 15 oed ydw i, a allwch chi fy helpu?